**Gwaith buddugol Nia Evans**
**Adran B: Bl.9-10**

<u>Dan Olau'r Lleuad</u>

Dan olau'r lleuad, llusgodd y dyn ei chorff llwyd, oer, gan greu afon goch yn rhedeg trwy'r carped o eira tenau yn dilyn nhw trwy'r nos.

. . .

"Yn gynnar bore 'ma, cafodd corff merch ifanc ei ddarganfod tu allan i Lanfyllin. Mae'r heddlu yn dweud bod y ferch heb gael ei hadnabod eto, ond maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod hunaniaeth y ferch yn cael ei ddarganfod mor fuan â phosib. Maen nhw hefyd yn rhybuddio pobl Llanfyllin rhag gadael y tŷ ar ben eu hunain; mae 'na lofrudd yn crwydro."

. . .

Dan olau'r lleuad, cripiodd y dyn i mewn i'r corffdy, mor ddistaw â'r bedd. Edrychodd o gwmpas yn dawel, ond yn amlwg mewn brys, am rywbeth pwysig iawn. Ar ôl sawl munud hir o edrych, daeth y dyn o hyd i beth oedd o'n chwilio amdano. Tudalen bach o bapur. Stwffiodd y papur yn gyflym i boced ei gôt hir, cyn troi ei lygaid ar y corff cyfarwydd a'i daflu dros ei ysgwyddau yn hawdd. Yr un mor sydyn, roedd o wedi mynd heb hybrin.

. . .

"Y NEWYDDION DIWEDDARAF! Yn hwyr neithiwr, torrodd rhywun i mewn i'r corffdy a dwyn corff y fenyw gafodd ei llofruddio ddeuddydd yn ôl a'r adroddiad awtopsi anorffenedig. Dywed yr heddlu nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi cael ei adael, ac yn amheus, doedd dim camera CCTV yn gweithio ar y pryd. Mae'r drosedd yma wedi drysu'r heddlu a'r tîm fforensig yn wirioneddol, ond mae nhw'n parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau diogelwch y pobl. Cofiwch gadw'n saff."

. . .

Dan olau'r lleuad, brysiodd y dyn i dyrchu bedd isel yng nghanol y goedwig dywyll, bell i ffwrdd o unrhyw wareiddiad prysur neu adeilad, heblaw am yr hen 'sgubor reit tu allan i'r coed. Pan benderfynodd y dyn bod y twll yn ddigon da, taflodd ef y corff rhewllyd ynddo heb ddim gofal o gwbl. Trodd ar ei droed a gorymdeithiodd nol i'r sgubor cyn iddo luchio y pridd yn ôl yn y twll, gan orchuddio'r fenyw fel blanced.

. . .

"Does dim diweddariadau newydd ynglŷn â'r ddynes gafodd ei llofruddio. Rydyn ni'n addo gadael i chi wybod os ydyn ni'n clywed unrhyw beth arall, rydych yn gallu trystio fi. Cadwch yn ddiogel."

. . .

**Gwaith buddugol Nia Evans**
**Adran B: Bl.9-10**

Dan olau’r lleuad, slamiodd y dyn ddrws y ‘sgubor ar ei ôl. Tynnodd o’r got hir, ddu a’i esgidiau mawr cyn ysgwyd yr eira ffwrdd ohono fo. Yna, yn araf deg, rhisglodd ei fwgwd i ffwrdd o'i ben, i ddangos nad dyn oedd o dan y mwgwd na’r got o gwbl. Dynes oedd yn cuddio tu ôl i'r mwgwd.

Dan olau’r lleuad, gwenodd y ddynes o glust i glust wrth iddi wylio ei hun ar y teledu bach twt yng nghornel y sgubor hynafol, yn bwydo'r pobl y wybodaeth anghywir, ac yn arwain amheuon yr heddlu oddi wrthi.

Doedd neb yn mynd i ddal hi wan...